# Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## HSS(2)-03-07(p.8)

### Dyddiad y cyfarfod: Dydd Mercher 7 Chwefror 2007
### Lleoliad: Ystafell Bwyllgora3, Y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd
### Teitl: Adroddiad Interim ar Orddyled yng Nghymru

#### Diben

Darparu adroddiad interim i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n cadarnhau'r cynnydd a wnaed hyd yma gan Ganolfan Iechyd Cymru yn ei hystyriaeth o argymhelliad 4 o'r Adroddiad ar Orddyled yng Nghymru a gynhyrchwyd (ym mis Gorffennaf 2005) gan Huw Lewis, y Dirprwy Weinidog dros Gymunedau.

#### Crynodeb / Argymhelliad

Ystyriwyd Adroddiad Huw Lewis ar Orddyled yng Nghymru gan y PIGC ar 19 Ionawr 2006. Awgrymodd y Pwyllgor y gallai fod gan bobl yn y gwasanaeth iechyd ran i'w chwarae yn y broses hon a gofynnwyd i mi, fel Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ystyried pa ran a allai fod i weithwyr iechyd proffesiynol a gwasanaethau cymdeithasol o ran rhoi argymhelliad 4 yr Adroddiad ar waith.

Comisiynais Ganolfan Iechyd Cymru i fwrw ymlaen ag ystyried hyn, nid yn unig mewn perthynas ag argymhelliad 4, ond mewn ffordd ehangach er mwyn asesu sut y gallai'r gwasanaeth iechyd chwarae rhan mewn perthynas â'r argymhellion eraill yn yr adroddiad. Gofynnais i'r Ganolfan adrodd yn ôl i mi erbyn diwedd y flwyddyn ariannol (2006/2007).

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r cynnydd â’r gwaith hwn fel y manylir isod, a nodi y cynhyrchir yr adroddiad terfynol gan y Ganolfan Iechyd erbyn y cyfarfod o'r Pwyllgor sydd i'w gynnal ar 14 Mawrth 2007.

#### Cefndir

Codwyd rhai materion pwysig iawn gan y PIGC yn ystod ei drafodaeth ar Adroddiad Huw Lewis ar Orddyled yng Nghymru yn ei gyfarfod ar 19 Ionawr 2006. Daeth y trafodaethau i ben â chais i mi, fel Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, fwrw ymlaen ag ystyriaethau mewn perthynas ag argymhelliad 4 yn yr Adroddiad, sy'n datgan hyn:

"Dylid rhoi manylion Asiantaethau Cynghori Ariannol i bobl sy’n cael ysgariad neu’n colli gwaith. Dylid gofyn barn ynghylch sut orau y gellid gwneud hyn, mewn achos o ysgariad efallai trwy gymdeithasau cyfreithwyr, ac o ran colli gwaith, trwy’r Undebau Llafur, y CBI a’r FSB."

Ar ôl ystyried trafodaeth y Pwyllgor ar yr Adroddiad yn gyffredinol, ac yn fwy penodol mewn perthynas ag argymhelliad 4, roedd yn amlwg bod camau gweithredu posibl yn ymestyn y tu hwnt i'r dewisiadau mwy amlwg, sef, er enghraifft, sicrhau cefnogaeth meddygon teulu. Felly, er mwyn gwneud yn siwr bod y mater hwn yn cael sylw llawn a phriodol a bod cynifer o ddewisiadau ag y bo modd yn cael eu harchwilio, comisiynais Ganolfan Iechyd Cymru i ystyried argymhelliad 4, a hefyd holl argymhellion eraill yr Adroddiad ac asesu cyfraniadau posibl gweithwyr proffesiynol iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Roedd Papur HSS(2)-08-06, a ddarparwyd ar gyfer cyfarfod y PIGC ar 11 Mai 2006, yn cadarnhau'r dull hwn a'r angen i'r Ganolfan Iechyd adrodd yn ôl wrthyf â chanfyddiadau erbyn diwedd Mawrth 2007.

Mae Canolfan Iechyd Cymru wedi bwrw ymlaen â'r gwaith hwn mewn dau gam. Roedd Cam 1 yn golygu:

- adolygiad o lenyddiaeth - yn coladu’r dystiolaeth o'r berthynas rhwng iechyd a gorddyled/ dyled bersonol ac iechyd unigolion a theuluoedd - diben hyn oedd asesu effaith afiechyd ac anabledd ar lefelau dyled aelwydydd a'r effaith a gaiff dyled ar statws iechyd
- archwiliad rhagarweiniol o'r wybodaeth sydd ar gael ynghylch graddfa problem gorddyled yng Nghymru - yr amcan yma oedd ychwanegu at y dehongliad o ba ddata sydd ar gael i ddarlunio graddfa gorddyled yng Nghymru, effaith bosibl hynny ar iechyd a'r costau cysylltiedig i wasanaethau iechyd a chymdeithasol
- sefydlu grwp o randdeiliaid allweddol - roedd sefydlu Grwp Llywio o randdeiliaid allweddol yn hanfodol er mwyn goruchwylio a chynorthwyo Cam 2 y Prosiect hwn.

Mae grwp o randdeiliaid allweddol i gynorthwyo Cam 2 wedi ei sefydlu, ac wedi cwrdd ddwywaith (erbyn diwedd Ionawr 2007). Mae trafodaethau a chyfeiriad y Grwp yn cael eu bwydo gan y gwaith sydd ar y gweill ar draws Llywodraeth Cynulliad Cymru i fynd i'r afael â dimensiynau eraill ar yr agenda gorddyled. At hynny, mae Canolfan Iechyd Cymru'n trafod â'r Gronfa Loteri Fawr i wneud yn siwr bod effaith gorddyled yn cael ei chynnwys a'i hystyried yn eu rhaglen arfaethedig o gyllid i brosiectau sy'n ceisio gwella iechyd meddwl. Mae Cam 2 (sy'n parhau) yn golygu:

- adnabod pa ffynonellau achrededig o gyngor ar ddyled sy'n bodoli, at bwy y maent wedi eu hanelu a sut y gall pawb gael mynediad atynt – gyda golwg ar sefydlu llwybrau atgyfeirio uniongyrchol (hy "iawn y tro cyntaf") sydd:

a) am ddim i'r unigolyn

b) yn darparu cyngor a chymorth hygyrch, amserol, cywir a hawdd eu deall

c) sy'n cael eu cynnig yn sensitif, er mwyn osgoi cysylltu unrhyw stigma posibl â'r cymorth hwn

- archwilio sut y gellir sefydlu mecanweithiau atgyfeirio sydd:

a) yn syml a hygyrch i weithwyr proffesiynol

b) yn effeithiol o ran gwneud gwir wahaniaeth wrth fynd i'r afael â dyled anodd, osgoi cynnydd mewn dyled, a rhwystro dyled rhag gwneud cyflyrau iechyd sydd wedi cael diagnosis yn waeth

c) yn gynaliadwy, ag elfen weithredol yn ychwanegol at y dull traddodiadol goddefol o arddangos taflenni ym meddygfeydd meddygon teulu ac ardaloedd aros ysbytai

- datblygu arweiniad a hyfforddiant i weithwyr proffesiynol gwasanaethau iechyd a chymdeithasol - byddai'r arweiniad a'r hyfforddiant hwn yn helpu gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol i adnabod unigolion sydd mewn perygl o fynd i orddyled, neu mewn gorddyled eisoes, a chyfeirio'r unigolion hynny yn briodol at ffynonellau achrededig cyngor ar ddyled
- trafodaethau ynghylch ehangu cwmpas y gwaith hwn i weithwyr proffesiynol a gwirfoddolwyr eraill, gyda phosibilrwydd cyfrannu at sicrhau gweithredu argymhellion eraill yn yr Adroddiad ar Orddyled.

Prin yw'r data ar raddfa problem gorddyled yng Nghymru. Mae Canolfan Iechyd Cymru yn dal i edrych ar ffynonellau data posibl i fwydo mwy ar waith ar orddyled ac iechyd.

Wedi i Gam 2 ddod i ben bydd yr adroddiad terfynol a gynhyrchir gan Ganolfan Iechyd Cymru yn cael ei ddarparu i'r PIGC ar 14 Mawrth 2007.

## Goblygiadau ariannol

Nid oes goblygiadau ariannol o ganlyniad uniongyrchol i'r papur hwn. Mae Cyfarwyddiaeth Adnoddau’r Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol wedi gweld a nodi cynnwys y papur hwn.

## Camau Gweithredu ar gyfer y Pwyllgor Pwnc

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys y papur hwn.

Dr Brian Gibbons AC
Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cysylltwch â: Peter Farley, Pennaeth Dros Dro yr Is-adran Diogelu Iechyd y Cyhoedd
Tel: 029 2082 5995